

## **GWASANAETH DIOLCHGARWCH**

---

---

### **Gweddi agoriadol:**

Ein Tad nefol, yn ein gwasanaeth diolchgarwch, helpa ni i ymostwng ger dy fron i'th addoli, i gyfrif bendithion ein bywyd, ac i roi ein diolch i ti.

*'O Dad, yn deulu dedwydd – y deawn  
A diolch o'r newydd;  
Cans o'th law y daw bob dydd  
Ein lluniaeth a'n llawenydd.'*

Er mwyn Iesu Grist. Amen.

**Emyn:** 75 – *I'r Arglwydd cenwch lafar glod*

**Darlleniad:** Salm 100

### **Gweddi'r Arglwydd:**

#### **Llefarydd:**

Mae'n amlwg fod y salmydd, yn y Ganfed Salm, wedi ei fendithio ag ysbryd addoli. Yn sicr, bendith fawr yw teimlo'n addolgar ac yn ddiolchgar.

Mae ysbryd diolchgarwch i'w ganfod, nid yn unig yn Llyfr y Salmau, ond hefyd mewn rhannau eraill o'r Beibl. Yn yr Efengylau, er enghraifft, cawn gyfeiriadau at Iesu Grist yn diolch. Cyn iddo borthi'r pum mil, cododd ei olygon i'r nefoedd i roddi diolch, ac yn yr oruwchystafell cyn estyn y bara i'r disgyblion, rhoddodd air o ddiolch i'w Dad nefol.

Mae'r Apostol Paul hefyd yn taro tant diolchgarwch yn aml iawn. Bron yn ddieithriad yn ei lythyrau, ar ôl ei gyfarchion i'r eglwysi, mae'n diolch i Dduw am fendithion gras yr Efengyl, ac yn ei lythyrau hefyd, mae'n annog ei gyd-Gristnogion i fod yn ddiolchgar bob amser. Er enghraifft:

*'Ym mhob dim rhowch ddiolch, oherwydd hyn yw ewyllys Duw yng Nghrist Iesu i chwi.'*

*‘Ym mhob peth gwnefer eich deisyfiadau yn hysbys i Dduw trwy weddi ac ymbil, ynghyd â diolchgarwch.’*

Yn y Beibl hefyd, cawn enghreifftiau o bobl a oedd yn brin o ysbryd diolchgarwch, er iddynt dderbyn yn helaeth o law fendithiol Duw. Dyma oedd gwendid mawr y naw gwahanglwyf a gafodd iachâd gan Iesu Grist, fel y clywn yn ein darlleniad cyntaf.

**Darlleniad:** Luc 17: 11–19

**Emyn:** 823 – *Ti fu gynt yn gwella’r cleifion*

**Llefarydd:**

*“Oni lanhawyd y deg? Ble mae’r naw?”*

Deg yn cael eu hiacháu, a dim ond un yn trafferthu i ddod yn ôl i ddiolch i Iesu Grist. Deg y cant o ddiolchgarwch a naw deg y cant o anniolchgarwch.

Pam na ddaeth y naw yn ôl at Iesu Grist i ddiolch iddo? Nid oes ateb yn y darlleniad, ond gallwn ddefnyddio rhywfaint ar ein dychymyg. Tybed ai bai mawr y naw gwahanglwyf oedd cymryd Iesu Grist yn ganiataol, a chredu mai hyn oedd ei resymol wasanaeth fel meddyg?

Onid hyn yw ein bai ni hefyd? Yn aml, rydym yn gwneud gwas bach o Waredwr y byd, ac yn ei gymryd yn rhy ganiataol. Yn sicr, nid dyma’r ysbryd priodol. Nid cymryd bendithion bywyd yn ganiataol a ddylem, ond eu derbyn gan roi diolch i Dduw.

**Llefarydd:**

Tybed ai anghofio diolch yn eu llawenydd a wnaeth y naw gwahanglwyf? Y mae hyn yn awgrymu iddynt *fwriadu* diolch, ond iddynt, yn eu brys a’u llawenydd i ddweud y newyddion da wrth eu teuluoedd, beidio â dychwelyd i ddiolch i Iesu Grist.

Mae’r esboniad hwn yn fwy caredig, ond ni wna hynny y gwahangleifion difeddwl o’u hiachâd yn llai euog. Gohirio diolch. Mae hynny’n beth peryg i’w wneud, gan y gall ein harwain at beidio â diolch o gwbl. Dywedir bod y ffordd i uffern wedi ei phalmantu â bwriadau da!

Felly, mae'n bwysig ein bod yn cyflawni'n bwriadau da mor fuan ag sy'n bosibl, ac yn mynegi ein diolch tra bo cyfle gennym. Dydy bwyd sy wedi ei aildwymo ddim hanner cystal â bwyd cynnes. Onid felly ein diolchgarwch? Mae'n bwysig diolch heb oedi, a gwneud hynny yn gynnes o'r galon.

**Llefarydd:**

Er na wyddom yr achos am ddiffyg diolchgarwch y naw gwahanglwyf a gafodd iachâd, mae'n amlwg fod yr Arglwydd Iesu wedi ei siomi yn fawr ynddynt, a theimlir hyn yn ei gwestiwn:

*Oni lanhawyd y deg? Ble mae'r naw?*

Ond os cafodd Iesu ei siomi yn y naw, fe gafodd ei blesio yn fawr yn y gwahanglwyf a ddaeth yn ôl i ddiolch iddo.

*'Ac un ohonynt, pan welodd ei fod wedi ei iacháu, a ddychwelodd gan ogoneddu Duw â llais uchel. Syrthiodd ar ei wyneb wrth draed Iesu gan ddiolch iddo; a Samariad oedd ef.'*

Onid yw'r sylw mai Samariad oedd y gŵr diolchgar yn awgrymog? Yng nghyfnod Iesu Grist roedd yr Iddewon a oedd yn byw yn Ne a Gogledd Israel yn ddilornus iawn o Iddewon y canolbarth, sef pobl Samaria. Wel, yn yr hanesyn hwn mae Luc yn rhoi pin yn swigen yr Iddew balch trwy nodi mai Samariad a ddaeth yn ôl i ddiolch i Iesu Grist.

Onid yw'r darlun o'r gwahanglwyf yn syrthio ar ei wyneb wrth draed Iesu, ac yn diolch iddo, yn dangos yn fwy na dim mai codi o ymdeimlad o ddyled y mae gwir ddiolchgarwch? Gwaetha'r modd, yr ymdeimlad o hawl sy fwyaf amlwg yn ein cymdeithas heddiw. Y gri gyffredin heddiw yw:

*'Mae gennyf hawl i'w gael. Fi sy pia fo. Rwy'n mynnu fy hawliau.'*

Nid yw hyn yn gydnaws ag ysbryd diolchgarwch. Nid ymdeimlad o hawl sydd i gael y lle amlyca' yn ein bywyd fel Cristnogion, ond

ymdeimlad o ddyled. Rydym mewn dyled i'n gilydd, ac i lawer o bobl sy wedi ein helpu ar daith bywyd, ac mae pawb ohonom, yn ddiwahân, mewn dyled i Dduw, ffynhonnell pob daioni, a Duw pob gras yn Iesu Grist.

**Emyn:** 79 – *Mawr ddyled arnom sydd*

**Cyd-weddiwn:**

(a)

Ein Tad nefol a charedig, bendithia ni ag ymdeimlad dwfn o ddiolchgarwch i ti. Diolchwn i ti, ein Tad, am wyrth dy greadigaeth; y modd y creaiast y nefoedd a'r ddaear, a rhoi trefn ar bob peth sydd ynddynt:

*'Pan edrychaf ar y nefoedd, gwaith dy fysedd, y lloer a'r sêr, a roddaist yn eu lle ...'*

O Greawdwr daionus, dyro inni lygaid ffydd i weld ôl dy fysedd ym mawredd dy fydysawd, ac ym mhrydferthwch ein daear. Dyro inni galon i fwynhau'r cyfan yn ddiolchgar:

*'O cadw ni rhag colli'r hud  
Sydd heddiw'n crwydro drwy'r holl fyd.'*

Diolchwn iti, ein Tad, am fendithion dy greadigaeth, a'th ofal cyson ohonom o ddydd i ddydd. Diolchwn iti am amrywiaeth o fwyd a diod i gynnal ein cyrff, am gartrefi cysurus i fyw ynddynt, am anwyliaid i'n caru bob amser, am ffrindiau cywir i rannu profiadau bywyd, a chymdogion da i droi atynt am gymorth, a llawer o fendithion eraill sydd y tu hwnt i'n gallu i'w henwi na'u cyfri. O Dad, ffynhonnell pob daioni a Duw pob gras, gwna inni sylweddoli mor dda yw hi arnom, ac mor ddyledus ydym i ti.

(b)

Wrth ddiolch i ti, ein Tad, am dy ddaioni mawr, gweddiwn am ras i rannu yr hyn a gawsom ag eraill. Gwyddom mai pobl uwchben ein

digon ydym, sy'n byw mewn byd lle mae ein brodyr a'n chwiorydd mewn angen mawr. Dymunwn gydymdeimlo â hwy yn eu hangen, ein Tad, a'u cynorthwyo a'u cysuro, ond sylweddolwn na allwn wneud hyn heb i ti ein hysbrydoli a'n llenwi â chonsŷrn dy gariad.

Cyffeswn mai pobl hunanol ydym yn aml, ac mai nod cyntaf y rhan fwyaf ohonom yw diogelu ein buddiannau personol. O Arglwydd, nertha ni i ymwadu â ni ein hunain, a phlanna ynom dosturi dy gariad, fel y byddom yn cynorthwyo'r difreintiedig o wirfodd calon, ac yn estyn o'n digonedd i eraill yn llawen. Er mwyn dy Fab Iesu Grist, a ddaeth i'n byd:

*'nid i'w wasanaethu, ond i wasanaethu, ac i roddi ei einioes yn bridwerth dros lawer.'*

Ac iddo ef felly y byddo'r clod a'r gogoniant, yn awr ac yn oes oesoedd. Amen.

### **Cyhoeddiadau a'r casgliad:**

**Emyn:** 93 – *Arglwydd mawr y nef a'r ddaear*

### **Llefarydd:**

Yn ein darlleniad cyntaf fe gawsom enghraifft o anniolchgarwch a achosodd siom fawr i Iesu Grist. Symudwn ymlaen at ein hail ddarlleniad, lle mae Iesu Grist yn rhoi enghraifft o ddyn crefyddol yn defnyddio'r gair 'diolch' i bwrpas hunanol ac isel. Fe geir yr hanes hwn hefyd yn Efengyl Luc.

**Darlleniad:** Luc 18: 9–14

### **Llefarydd:**

*'O Dduw, yr wyf yn diolch iti am nad wyf fi fel pawb arall, yn rheibus, yn anghyfiawn, yn odinebus, na chwaith fel y casglwr trethi yma.'*

Perthynai y Pharisead hwn i ddosbarth crefyddol iawn, a thueddent i fod yn hunangyfiawn ac yn ffoenuchel eu hysbryd. Roedd hyn yn achos tristwch mawr i Iesu Grist.

Yn y ddameg hon, cawn ddarlun o'r Pharisead ar ei waethaf, nid yn unig yn ei ysbryd trahaus tuag at y casglwr trethi, ond hefyd yn ei feiddgarwch bostfawr gerbron Duw. Mae'n wir iddo yngan y gair 'diolch' wrth Dduw yn ei weddiâu, ond wrth wneud hynny, fe lurguniodd un o'r geiriau mwyaf cysegredig. Onid yw hyn yn enghraifft o buteinio'r gair 'diolch', a thrin Duw yn y modd mwyaf annheilwng?

Mae'n anodd credu sut y gallai dyn crefyddol fel y Pharisead hwn fod mor llawn ohono'i hun, ac mor annioddefol o hunangyfiawn. Yr hunan sy'n bwysig yn ei olwg, a neb arall, ac wrth restru'r gwahanol gampau crefyddol a wnaeth, mae'n ymollwng i ymffrostio'n ddiiddiwedd, ac i ddilorni ei gyd-ddynion trwy eu disgrifio fel rhai rheibus, anghyfiawn a godinebus.

Beth ddywedwn ni? Yn sicr, nid dyma'r ysbryd y dylem fod ynddo wrth nesáu at Dduw. Y mae tynnu sylw Duw at wendidau pobl eraill gerbron gorsedd gras yn ymddygiad gwaradwyddus, ac y mae tynnu sylw Duw at ein daioni tybiedig personol ni yn wrthun ac yn bechod.

Credwn fod y fath beth â ffordd Gristnogol o ymddwyn gerbron gorsedd gras. Duw a'i ymwneud grasol yn Iesu Grist yw byrdwn diolchgarwch y Cristion, ac nid yw'n meiddio tynnu sylw ato'i hun. Gŵyr mai pechadur mewn dyled ydyw i Dduw, ac na all, tra bydd byw, dalu'r ddyled yn ôl.

Yn y ddameg y mae'r casglwr trethi yn nesáu at Dduw mewn ysbryd tra gwahanol i'r Pharisead hunangyfiawn. Gwelai ei hunan fel Williams Pantycelyn, *'yn eisiau oll i gyd'*, a chan guro ei fron, dywedodd yn edifeiriol ei ysbryd:

*"O Dduw, bydd drugarog wrthyf fi, bechadur."*

### **Cyd-weddiwn:**

Ein Tad sanctaidd, cyffeswn ein bod yn gweld ein hunain yn well nag yr ydym; yn gweld ein rhinweddau yn gliriach na'n diffygion, ac yn gweld pechodau pobl eraill yn hytrach na'n pechodau ein hunain. O Arglwydd, rwyf ti yn ein gweld fel ag yr ydym. Dyro inni ysbryd dewr i

wynebu'r gwir amdanom ein hunain, ac ysbryd edifeirwch i syrthio ar ein bai. Yn enw dy Fab Iesu Grist a'i aberth drosom ar y groes, trugarha wrthym, a meddyginiaetha ni â'th gariad, fel y byddom:

yn bur ein meddyliau a'n calonnau,  
yn gymeradwy ein hymadroddion,  
yn lân ein dwylo,  
yn union ein cerddediad, ac  
yn debyg i Iesu Grist yn ein holl ymarweddiad. Amen.

**Emyn:** 567 – *Anadla, anadl lôr*

**Darlleniad:** Habacuc 3: 17–19

**Llefarydd:**

Yn ein darlleniad olaf o Lyfr Habacuc, clywsom un o rannau mwyaf hyfryd a gogoneddus yr Hen Destament. Yn ddiamheuaeth, y mae Habacuc yn ein codi i dir uchel iawn yn ysbrydol. Yn ei neges y mae'r proffwyd yn ymgodymu â'r ffaith fod pobl Dduw yn dioddef, tra bo'r annuwiol yn dianc yn ddianaf. Y mae hyn yn peri gofid i Habacuc, ac fel plentyn ffydd, mae'n dweud ei gŵyn wrth Dduw, ac yn datgan barn a gwae ar elynion Israel.

Nid yw Habacuc, fodd bynnag, yn cloi ei neges ar y nodyn hwn, ond yn hytrach mewn ysbryd o ymddiriedaeth a diolchgarwch i Dduw. Yn nyddiau y proffwyd roedd Israel yn mynd trwy gyfnod anghyffredin o galed. Pallodd y cynhaeaf olew, ac roedd y corlannau a'r beudai yn wag o anifeiliaid. Hynny yw, roedd hi'n enbyd o galed ar Habacuc a'i bobl. Roedd 'na brinder bwyd yn Israel ac ansicrwydd mawr, a allai arwain at afiechydon blin a llawer o farwolaethau. Ond er i Habacuc a phobl Israel gael eu hamddifadu o bob llawenydd a chysur naturiol, nid yw'r proffwyd yn colli ei ffydd yn Nuw. Y mae amgylchiadau croes bywyd yn ei daro'n ddidrugaredd, ond mae'n para'n llawen ei ysbryd, ac mewn cân orfoleddus mae'n tystio trwy ddweud:

*'Eto, llawenychaf yn yr Arglwydd, a llawenhaf yn Nuw fy iachawdwriaeth.'*

**Llefarydd:**

Mae'n anodd iawn i ni yn ein llawnder yng Nghymru, amgyffred cyflwr pobl Israel yng nghyfnod Habacuc ond, fel y gwyddom, y mae pobl heddiw yn ein byd yn dioddef tloedi enbyd a newyn angheuol.

Y mae maint y dioddefaint a'r boen sydd yn ein byd heddiw yn arswydus iawn, ac fel Habacuc, rydym yn gofyn y cwestiwn, Pam fod y cyfiawn a'r diniwed yn dioddef? Nid yw'n hawdd rhoi ateb boddhaol, ond gwyddom fod pechod dyn yn rhan o'r achos. Ac onid yw hyn yn wir? Tra bo cenhedloedd ein byd yn gwario biliynau ar arfau rhyfel, ni allwn fel Cristnogion fod yn dawel ein meddyliau, na chwaith ddiystyru cyflwr truenus y tlawd a'r newynog yn ein byd.

Y mae apêl daer 'Cymorth Cristnogol' a mudiadau tebyg yn haeddu ein sylw a'n cefnogaeth. Trwyddynt hwy cawn gynnal y gwan a chynorthwyo'r tlawd. Gadewch inni wneud hyn trwy roi clust a chalon i gri ein brodyr a'n chwiorydd anghenus, a chloddio'n ddyfnach i'n pocedi er mwyn ein Harglwydd Iesu Grist. Ac iddo ef y byddo'r clod a'r gogoniant, yn awr ac yn oes oesoedd. Amen.

**Emyn:** 107 – *Gogoniant tragwyddol i'th enw, fy Nuw*

**Y Fendith:**

*'I'n Duw ni y bo'r mawl a'r gogoniant  
a'r doethineb a'r diolch  
a'r anrhydedd a'r gallu  
a'r nerth byth bythoedd! Amen.'*